Deg Awgrym ar gyfer codi arian

1. Gofynnwch. Os na wnewch chi, ni fydd unrhyw un yn gwybod eich bod eisiau rhywbeth.
2. Dywedwch wrth bobl pam mae eu cefnogaeth yn bwysig a'r hyn y bydd yn helpu i'w gyflawni.
3. Dywedwch wrth bobl am eich cynlluniau at y dyfodol ac amlygwch eich llwyddiannau hyd yn hyn.
4. Byddwch yn benodol am yr hyn rydych ei angen – a gofynnwch amdano.
5. Os ydych chi'n gofyn am arian, dywedwch yn union ar beth fyddwch chi'n ei wario. Os bydd rhywun wedi rhoi cyfarpar neu ddeunyddiau, dywedwch sut bydd yn cael ei ddefnyddio.
6. Cofiwch gynnwys taflen i egluro'r hyn rydych chi'n ei wneud.
7. Cofiwch ddweud diolch ar unwaith ac yn neis.
8. Peidiwch â digio os byddwch chi'n cael eich gwrthod, mae'n bosibl y bydd y person nesaf yn dweud "iawn".
9. Cadwch gofnodion o'r holl gefnogaeth a gawsoch. Rhowch wybod i'ch cefnogwyr am eich cynnydd.
10. Os bydd yn rhaid, peidiwch ag ofni mynd yn ôl a gofyn am fwy.

GwaithleuenctidCymru

pobl fel chi sy'n ei wneud fel y mae

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government